**ADRODDIAD AR GYFER Y CYD-BWYLLGOR**

**14 GORFFENNAF 2021**

**Adroddiad gan:** Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Pwnc:** Datganiad Llywodraethu ar gyfer Cydbwyllgor GwE

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Derbyn a chymeradwyo y datganiad llywodraethu blynyddol

**2.0 Cefndir**

2.1 Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn gosod gofynion penodol ar gyrff cyhoeddus sydd yn gweithredu trefniadau rheoli partneriaethol trwy gyd-bwyllgorau ffurfiol.

2.2 Gofyniad Rhan 5 yw i'r Cyd-Bwyllgor adolygu a chymeradwyo datganiad rheolaeth fewnol. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi ei ddarparu i gyd-fynd â'r gofyniad hwn. Mae'r ddogfen wedi ei pharatoi i gynnig fframwaith i weithrediad y Cyd-Bwyllgor.

**3.0 Argymhellion**

3.1 Gofynnir i'r Cydbwyllgor dderbyn a chymeradwyo y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**4.0 Goblygiadau ariannol**

4.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**5.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

5.1 Nid oes unrhyw effaith newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Goblygiadau Personél**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Atodiadau**

8.1 Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Rwyf yn fodlon fod y datganiad yn cynnwys disgrifiad priodol o drefniadau llywodraethu GwE.

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwyf yn fodlon fod y datganiad yma yn adlewyrchiad teg o drefniadau llywodraethu GwE am y flwyddyn 2020/21, a bod trefniadau ar gyfer atebolrwydd yn briodol. Mae’r datganiad yn cwrdd â’r gofyn i ddisgrifio fframwaith lywodraethu GwE, ac i asesu pa mor effeithiol mae’n gweithredu. Byddaf yn cefnogi GwE fel bo’r angen wrth iddo roi sylw i’r materion a nodir yn Rhan 5 o’r datganiad.

Dros y cyfnod dan sylw mae aelodau’r Cyd-bwyllgor (y Cynghorwyr a Prif Swyddogion Addysg o’r 6 awdurdod lleol yng ngogledd Cymru, ynghyd â Rheolwr Gyfarwyddwr y Gwasanaeth) wedi parhau i gydweithio er mwyn sicrhau fod GwE yn parhau i gyflawni’r cyfrifoldebau’n effeithiol.